Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Haulfre**

**Haulfre**
**Biwmares**
**LL58 8RY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

8 Mawrth 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Haulfre

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy, Cymraeg a Saesneg. |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ar ôl iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae pobl yn hapus yn byw yn y gwasanaeth ac yn canmol y gofal maent yn ei dderbyn. Darperir gofal a chymorth yn unol â chynlluniau unigol y bobl. Mae asesiadau risg ar waith i hybu annibyniaeth y bobl tra'n lleihau'r risgiau hysbys i ddiogelwch pobl. Mae dewisiadau ar gael i'r bobl mewn perthynas â phob agwedd ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn galluogi'r bobl i deimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau. Mae cyfleoedd ar gael i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau grŵp wedi'u cynllunio, ac mae'r bobl yn cael eu hannog i wneud awgrymiadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud. Mae'r amgylchedd yn lân, yn daclus ac mae llawer o le. Mae mannau awyr agored dymunol a hawdd mynd atynt ar gael sy'n galluogi pobl i fwynhau golygfeydd yr amgylchedd. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei fonitro'n gyson.

## Llesiant

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn, gan y dangosir urddas a pharch iddynt. Mae staff gofal, y mae'r bobl yn eu hoffi ac yn cyd-dynnu â nhw, yn darparu cefnogaeth a chymorth mewn ffordd ddigynnwrf ac mewn modd hamddenol. Dywedodd y bobl wrthym *“rydyn ni'n ffodus iawn yn byw yma”*, ac maent yn teimlo'n gartrefol ac wedi ymgartrefu. Mae'r staff gofal yn treulio amser yn eistedd ac yn siarad â phobl, ac yn rhoi sicrwydd a chysur drwy ddefnyddio cyffyrddiad priodol, megis dal dwylo. Mae'r bobl yn derbyn eu gofal yn yr iaith o'u dewis, boed yn Gymraeg neu Saesneg, gan fod staff yn gallu sgwrsio'n ddwyieithog.

Mae pobl yn hapus oherwydd gallant wneud pethau y maent yn eu mwynhau. Mae amrywiaeth o weithgareddau gwahanol ar gael bob dydd, i bobl ddewis cymryd rhan ynddynt. Cesglir barn y bobl ar sut yr hoffent dreulio eu hamser, yn anffurfiol yn ystod sgyrsiau ac yn ffurfiol yn ystod cyfarfodydd preswylwyr. Mae'r staff gofal yn gwrando ac yn ymateb i'r awgrymiadau y mae pobl yn eu gwneud a chaiff gweithgareddau eu cynllunio ymlaen llaw yn unol â dymuniadau pobl.  Mae dewisiadau ar gael i'r bobl o ran eu trefn ddyddiol unigol eu hunain, sy'n galluogi'r bobl i gadw ymdeimlad o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae trefniadau ar waith i alluogi pobl i weld eu teulu a’u ffrindiau, mewn ffordd ddiogel, sydd hefyd yn cefnogi eu hymdeimlad o lesiant.

Mae pobl yn cael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod staff wedi’u hyfforddi ar sut i ddiogelu pobl rhag niwed a’r camau i’w cymryd mewn ymateb i faterion diogelu. Mae gan staff gofal yn gallu troi at y wybodaeth ysgrifenedig ddiweddaraf am eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn pobl rhag niwed.

Mae trefniadau ar waith i hybu iechyd pobl ac i gynnal annibyniaeth pobl. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion gofal a chymorth pobl, ac yn darparu cymorth yn ôl yr angen. Mae pobl yn cael dewis o brydau bwyd ac yn dewis ble yr hoffent fwyta. Darperir cymorth gyda meddyginiaeth sy'n helpu i gynnal iechyd pobl a rheoli cyflyrau iechyd. Mae angen gwneud gwelliannau ar gyfer storio meddyginiaeth er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol yn llawn.

Mae'r cartref yn olau, yn eang ac yn ddiogel. Mae risgiau i iechyd a diogelwch pobl yn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli sy'n cadw pobl yn ddiogel. Mae arferion rheoli heintiau da ar waith sy’n amddiffyn pobl cymaint â phosibl rhag y risg o coronafeirws. Mae'r cartref yn lân ac yn gyffredinol mae'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod pobl yn byw mewn amgylchedd sy'n derbyn gofal da. Mae hyn yn helpu i gyfrannu at ymdeimlad y bobl o lesiant a balchder yn eu cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae pobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch sut y dymunant dderbyn eu gofal a chymorth. Mae cynlluniau unigol yn cofnodi cryfderau unigol y bobl yn ogystal â'r tasgau y mae angen cymorth arnynt. Mae'r hyn sydd o bwys i'r bobl yn bwysig, ac yn cael ei gofnodi yn eu cynlluniau. Mae hyn yn helpu'r staff gofal i ddod i adnabod y person, y tu hwnt i'w hanghenion gofal a chymorth. Cynhelir adolygiadau o'r cynlluniau unigol yn fisol i sicrhau bod staff gofal yn gallu cael gafael ar y wybodaeth ysgrifenedig ddiweddaraf am anghenion y bobl. Mae asesiadau risg ar waith i gofnodi risgiau penodol a nodwyd i iechyd a diogelwch y bobl a'r mesurau sydd ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

Gwneir cyfeiriadau at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn briodol ac yn brydlon pan fydd newidiadau yn digwydd yn amgylchiadau pobl. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael cyngor a chymorth arbenigol i gynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus pan fo angen. Mae cofnodion o ganlyniad mewnbwn gweithwyr proffesiynol ar gael i arwain staff ynghylch pa gamau y mae angen iddynt eu cymryd mewn ymateb i'r newid yn anghenion y person.

Mae pobl yn elwa o'r arferion hylendid a rheoli heintiau da sydd ar waith. Gwiriodd y rheolwr ein bod wedi cynnal prawf COVID-19 cyn i ni fynd i mewn i'r adeilad ac mae gwiriadau ar waith ar gyfer pob ymwelydd â'r gwasanaeth. Mae staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol i amddiffyn pobl a nhw eu hunain, cyn belled â phosibl rhag y firws. Mae cynllun wrth gefn ar waith ynghylch sut y byddai'r gwasanaeth yn gweithredu pe bai achos o COVID-19.

Nid yw trefniadau rheoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth yn gadarn ac mae angen rhoi sylw i hyn. Mae pobl yn cael eu cynorthwyo i dderbyn eu meddyginiaeth fel y rhagnodir. Fodd bynnag, canfuom fod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer storio meddyginiaeth yn anniogel ac nad oeddent yn unol â pholisi meddyginiaeth y gwasanaeth. Nid yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer dychwelyd meddyginiaeth bob amser yn unol â pholisi meddyginiaeth y gwasanaeth. Er nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae systemau ar waith i amddiffyn pobl rhag niwed a cham-drin. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant diogelu ac yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn pobl rhag niwed ac esgeulustod. Mae polisi diogelu ar waith a chyflwynir adroddiadau priodol i'r awdurdod lleol pan fydd angen.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hybu ymdeimlad y bobl o berthyn a'u llesiant. Mae’r adeilad a’r cyfleusterau fel maent yn cael eu disgrifio yn y datganiad o ddiben. Mae'r cartref yn lân ac yn gartrefol, gyda dewis o lolfeydd lle gall y bobl dreulio amser gydag eraill, fel y mynnant. Mae hefyd ardaloedd eistedd llai ar gael o fewn heulfan fawr, sy'n edrych dros y gerddi helaeth ac sydd â golygfeydd agored tuag at y môr a chefn gwlad. Mae ystafelloedd y bobl wedi'u haddurno'n unigol, ac wedi'u personoli ag eitemau sydd yn bwysig iddynt eu hunain megis ffotograffau, darluniau a dodrefn meddal. Mae'r gofod allanol yn hygyrch ac mae seddau ar gael ar y feranda. Mae gwelyau uchel ar gyfer planhigion ar gael, ac mae'r bobl yn eu defnyddio i blannu a thyfu blodau, ffrwythau a llysiau.

Ar y cyfan, mae'r gwaith cynnal a chadw ar y safle o safon uchel. Yr unig eithriad i hyn yw rhan o'r nenfwd, ger y fynedfa i'r ystafell fwyta, sy'n dangos arwyddion o ddifrod dŵr. Mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac wedi gwneud ymdrechion i drefnu i fynd i'r afael â hyn. Er nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol. Mae gan y gegin y sgôr Hylendid Bwyd uchaf posibl o bump (da iawn) yn dilyn arolygiad diweddaraf yr Awdurdod Lleol. Mae trefniadau ar waith ar gyfer storio a pharatoi bwyd yn ddiogel. Cwblheir gwiriadau diogelwch tân, yn ôl y gofynion. Mae'r rheolwr wedi cymryd camau mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan y gwasanaeth tân, yn dilyn eu harolygiad o'r gwasanaeth. Mae'r profion trydanol yn hwyr ar hyn o bryd, ond mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac mae trefniadau ar y gweill i fynd i'r afael â hyn. Mae trefniadau ar waith i hyrwyddo hylendid da a rheoli heintiau yn y safle. Mae amserlenni glanhau ar waith ac mae'r staff yn gyfrifol am sicrhau bod pob ardal yn cael ei gadw'n lân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac mae gwiriadau addas yn cael eu cwblhau cyn cyflogi staff newydd i weithio yn y gwasanaeth. Mae staff gofal yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Dywedodd un aelod o staff gofal wrthym *“mae'n lle braf i weithio”* a dywedodd aelod arall o staff gofal wrthym mai'r rhan orau o'i rôl oedd *“treulio amser yn siarad â phobl a chlywed eu straeon”.* Mae'r rheolwr a'r rheolwr cynorthwyol ar gael i roi arweiniad i'r staff gofal ac i oruchwylio'r gofal a'r cymorth a ddarperir o ddydd i ddydd.

Mae niferoedd digonol o staff gofal ar gael i ddarparu'r lefelau gofal gofynnol. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a’r cymorth sydd eu hangen arnynt ar yr amser cywir. Dywedodd staff gofal wrthym eu bod yn gweithio'n dda fel tîm a gallant ddibynnu ar eu cydweithwyr i helpu ei gilydd wrth gwblhau eu tasgau. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio gyda'u rheolwr. Mae'r rheolwr hefyd yn cael cymorth goruchwylio rheolaidd gan yr unigolyn cyfrifol.

Mae trefniadau ar waith i gefnogi rhediad esmwyth o'r gwasanaeth ac i ddarparu trosolwg o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth ac yn ymgynghori â'r staff gofal a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fel rhan o'i waith monitro. Mae cofnodion ar gael i ddangos y trefniadau monitro sydd ar waith gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith i adolygu safonau'r gwasanaeth a ddarperir, sy'n cynnwys cael barn y bobl am y gofal a'r cymorth maent yn cael. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd ac mae cofnodion y cyfarfodydd ar gael i'r bobl na allant fynychu'r cyfarfodydd. Gwelsom fod y bobl yn un o'r cyfarfodydd wedi awgrymu'n flaenorol y byddent yn hoffi cael prynhawn caws a gwin, a digwyddodd hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Cynhelir adolygiad llawn o ansawdd gofal bob chwe mis ac mae adroddiadau ar gael i adlewyrchu'r wybodaeth a gasglwyd.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid oes trefniadau ar waith i sicrhau bod pob rhan o'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Mae | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | un rhan o'r nenfwd mewn ardal gymunol wedi profi difrod dŵr ac mae angen gwneud atgyweiriadau. | |
| 58 | Nid yw'r trefniadau ar gyfer storio meddyginiaeth yn ddiogel sydd ar waith yn gadarn ac mae angen cymryd camau i sicrhau bod y maes hwn o'r gwasanaeth yn bodloni gofynion y rheoliadau yn llawn. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 28/04/2022